




Cyngor Gofal Cymru
Care Council for Wales

Hyder mewn Gofal - Confidence in Care

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar
a Gofal Plant yng Nghymru



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyhoeddwyd gan:

Cyngor Gofal Cymru,
South Gate House,
Wood Street,
Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0300 30 33 444
Ffacs: (029) 2038 4764
E-bost: info@ccwales.org.uk
Gwefan: www.ccwales.org.uk

(h) (Medi 2013) Cyngor Gofal Cymru
Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhychu, storio mewn system adalw na darlledu rhan o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau ynghylch atgynhychu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru yn y cyfeiriad a nodir uchod.

ISBN: 978-1-906528-75-1

Rhagor o gopïau a fformatau eraill

Mae rhagor o gopïau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu fformatau eraill os oes angen.

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Cynnwys

Rhagair	5	1.13 Awgrymiadau am gymwysterau seiliedig ar waith fel dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus	11
Adran 1: Cyflwyniad a chanllawiau	6	1.14 Cymwysterau academaidd ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus	12
1.1 Meysydd gwasanaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant	6	1.15 Asesu cymwysterau	12
1.2 Diffiniadau o rolau swydd	7	1.16 Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru	12
1.3 Statws y Rhestr Cymwysterau	8		
1.4 Cymwysterau sy'n ofynnol i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio	8	Adran 2: Cymwysterau sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i weithio o fewn Cyfleusterau Gofal Dydd Llawn a Chyfleusterau Crèche gyda phlant o dan wyth oed	13
1.5 Cymwysterau sy'n ofynnol i fodloni Polisi Llywodraeth Cymru	8	– Ymarferydd Meithrinfa Cynorthwyol	13
1.6 Cymwysterau blaenorol a dderbynnir i ymarfer	8	– Ymarferydd Meithrinfa	14
1.7 Meini prawf i gymwysterau ymddangos ar y Rhestr Cymwysterau	9	– Uwch Ymarferydd/Dirprwy Reolwr Meithrinfa	15
1.8 Cymwysterau nad ydynt yn bodloni'r egwyddorion dylunio	10	– Rheolwr Meithrinfa	16
1.9 Cyfwerthedd a dysgu blaenorol	10		
1.10 Cymwysterau a gaiff eu hennill y tu allan i Gymru	11	Adran 3: Cymwysterau sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i weithio fel Gwarchodwr Plant	17
1.11 Y broses sefydlu ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant	11	– Gwarchodwr Plant	17
1.12 Datblygiad proffesiynol parhaus	11		

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Adran 4: Cymwysterau sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i weithio ym maes Gofal Dydd Sesiynol

- Ymarferydd Sesiynol Cynorthwyol
- Ymarferydd Sesiynol
- Uwch Ymarferydd/Dirprwy Reolwr Sesiynol
- Rheolwr Sesiynol

18

18

20

21

23

Adran 5: Cymwysterau sy'n ofynnol gan Bolisi Llywodraeth Cymru i weithio o fewn Dechrau'n Deg

- Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd Dechrau'n Deg
- Ymarferydd Dechrau'n Deg
- Arweinydd Dechrau'n Deg

25

25

27


28

Adran 6: Cymwysterau sy'n ofynnol gan Bolisi Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen

- Ymarferydd Meithrinfa

29

29



Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair

1. Cyflwyniad a chanllawiau

2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche

3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant

4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol

5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg

6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen

Rhagair

Sefydlwyd Cyngor Gofal Cymru (y Cyngor Gofal) o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a daeth yn weithredol ar 1 Hydref 2001 i hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad ac ymarfer ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol a safonau uchel o ran eu hyfforddiant.

Yn 2005, newidiodd y Cyngor Gofal i'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, gan dderbyn cyfrifoldeb dros y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n gweithio yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

Nod gwaith y Cyngor Gofal yw sicrhau bod y gweithlu yng Nghymru yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau priodol i weithio i safonau proffesiynol uchel, ac y gall ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

Mae'r Rhestr o'r cymwysterau gofynnol i weithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru wrth wraidd y gwaith hwnnw. Cyn rhoi'r rhestr hon ar waith, defnyddiwyd 'Fframwaith Cymwysterau' Llywodraeth Cymru. Mae'r rhestr hon yn deillio o'r ail adolygiad o gymwysterau yn y sector, ac mae'n disodli pob fersiwn flaenorol.

Mae cymwysterau sy'n addas at y diben ac sy'n ategu datblygiad proffesiynol parhaus ardderchog yn greiddiol i'r gwaith hwn, a byddant yn ganolog wrth godi statws y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru a sicrhau y caiff y sector ei broffesiroleiddio.

Felly, yn ogystal â datblygu'r cymwysterau a gaiff eu cynnwys ar y *Rhestr o'r cymwysterau gofynnol i weithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru*, mae gwaith y Cyngor Gofal hefyd, drwy ymgynghori â'r sector, yn ymwneud â chynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau dysgu wedi'u hanelu at y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant a'i ddatblygiad proffesiynol.

Hoffai Cyngor Gofal Cymru ddiolch i bawb ar draws ein rhwydweithiau a'n partneriaid a fu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r *Rhestr o'r cymwysterau gofynnol i weithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru*.

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair

1. Cyflwyniad a chanllawiau

2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche

3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant

4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol

5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg

6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen

1. Cyflwyniad a chanllawiau

Mae'r Rhestr o'r cymwysterau gofynnol i weithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru yn darparu canllawiau i gyflogwyr, ymarferwyr, darparwyr dysgu a sefydliadau eraill ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant ar y cymwysterau galwedigaethol gofynnol i'r rheini sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant gyda phlant o dan wyth oed.

Dylid defnyddio'r rhestr hon ar y cyd â'r Rhestr Cymwysterau a gynhyrchwyd gan Skills Active, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer gweithwyr chwarae ac unrhyw restr arall a ddatblygir gan Gynghorau Sgiliau Sector sy'n gyfrifol am rannau o'r gweithlu blynyddoedd cynnar sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau (ee: iechyd, addysg). Dylid ei defnyddio hefyd ar y cyd â safonau gwasanaeth a rheoliadau, lle y nodir hynny gan [Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru \(AGGCC\)](#).

1.1 Meysydd gwasanaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant o fewn ôl troed Cyngor Gofal Cymru

Mae 'ôl troed' Cyngor Gofal Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cwmpasu gwasanaethau gofal dydd i blant o dan wyth oed. Ymhlith y rhain mae: cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche; gwarchod plant a gofal dydd sesiynol.

Mae gofynion cymwysterau ychwanegol ynghlwm wrth ddarpariaeth Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen sy'n rhan o wasanaethau gofal dydd o

gymharu â'r rheini a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio. Pennwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru ac fe'u nodir yn y tablau cymwysterau.

1.1.1 Gofal dydd llawn

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn disgrifio gofal dydd llawn fel cyfleusterau sy'n darparu gofal dydd i blant o dan wyth oed am gyfnod parhaus o bedair awr neu fwy yn ystod unrhyw ddiwrnod penodol ar safle nad yw'n safle domestig. Gall hyn gynnwys meithrinfeydd dydd, canolfannau plant, rhai canolfannau i deuluoedd a gofal cofleidiol.

1.1.2 Crèches

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn disgrifio crèches fel cyfleusterau sy'n darparu gofal dydd achlysurol i blant o dan wyth oed ac a ddarperir ar safle penodol ar fwy na phum diwrnod y flwyddyn. Gellir eu darparu naill ai ar safle parhaol neu ar safle dros dro ac maent yn gofalu am blant tra bydd eu rhieni'n brysur neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau.

1.1.3 Gwarchodwr plant

Mae gwarchodwyr plant cofrestredig yn weithwyr gofal plant proffesiynol sy'n gweithio yn eu cartrefi eu hunain i ddarparu gofal ac addysg i blant pobl eraill mewn lleoliad domestig.

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair

1. Cyflwyniad a chanllawiau

2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche

3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant

4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol

5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg

6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen

1.1.4 Gofal Dydd Sesiynol

Mae gofal dydd sesiynol, y cyfeirir ato weithiau fel cylchoedd chwarae Cylch Meithrin neu gylchoedd chwarae cyn ysgol, yn darparu gofal dydd ac addysg sesiynol i blant. Mae ystod oedran darparwyr cyn ysgol yn amrywio o ddwy i bump oed, er mai dim ond plant tair oed neu'n hŷn y bydd rhai darparwyr yn eu derbyn.

1.1.5 Dechrau'n Deg

Dechrau'n Deg¹ yw rhaglen blynyddoedd cynnar flaenllaw Llywodraeth Cymru i deuluoedd â phlant o dan bedair oed ac mae wedi'i thargedu at rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'n adnodd hanfodol o ran cyflawni'r saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae Dechrau'n Deg ymhlith prif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac mae ymrwymiad i ddyblu nifer y plant a'u teuluoedd sy'n manteisio ar raglen Dechrau'n Deg o 18,000 i 36,000 yn ystod cyfnod y weinyddiaeth hon.

Mae lefelau cymwysterau ar gyfer gweithio o fewn lleoliad Dechrau'n Deg ar lefel uwch na'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y gweithlu, gan sicrhau lefelau priodol o ran hyfforddiant a chymwysterau.

1.1.6 Y Cyfnod Sylfaen

Mae'r Cyfnod Sylfaen² yn ddull newydd o ddysgu i blant rhwng tair a saith oed ac fe'i hategir gan fframwaith statudol, sef y *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Rhoddir pwyslais ar ddysgu plant ifanc drwy wneud a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt feithrin profiadau uniongyrchol drwy chwarae a dysgu gweithredol.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai darpariaeth y blynyddoedd cynnar gynnig sylfaen cadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol drwy gwricwlwm sy'n ddatblygiadol briodol. Mae'n bwysig bod lleoliadau gofal plant - yn enwedig y rheini sy'n gofalu am blant tair i saith oed - yn ymwybodol o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r saith maes dysgu.

Mae lefelau cymwysterau ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ar lefel uwch nag a ddynodir o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y gweithlu, gan sicrhau lefelau priodol o ran hyfforddiant a chymwysterau.

Lle bo lleoliadau yn cynnig darpariaeth y Cyfnod Sylfaen, dylid cyfeirio at y tabl cymwysterau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen³.

1.2 Diffiniadau o rolau swydd ar gyfer y Cymwysterau sy'n ofynnol gan y safonau gofynnol cenedlaethol

1.2.1 Ymarferydd Meithrinfa Cynorthwyol/Ymarferydd Sesiynol Cynorthwyol

Mae Ymarferydd Meithrinfa Cynorthwyol/Ymarferydd Sesiynol Cynorthwyol yn darparu gofal dydd i blant o dan wyth oed fel rhan o rôl nad yw'n cynnwys goruchwyllo.

1.2.2 Ymarferydd Meithrinfa/Ymarferydd Sesiynol

Mae Ymarferydd Meithrinfa/Ymarferydd Sesiynol yn darparu gofal dydd i blant o dan wyth oed mewn rôl na oruchwylir neu yn cynnwys goruchwyllo eraill.

¹ Canllawiau Strategol Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru

² Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru

³ Adeiladu'r Cyfnod Sylfaen - Cynllun Gweithredu. Dogfen Wybodaeth Rhif: 025-06 AADGOS Rhagfyr 2006

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair

1. Cyflwyniad a chanllawiau

2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche

3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant

4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol

5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg

6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen

1.2.3 Uwch Ymarferydd Meithrinfa/Uwch Ymarferydd Sesiynol

Mae Uwch Ymarferydd Meithrinfa/Uwch Ymarferydd Sesiynol yn ymgymryd cyfrifoldebau ychwanegol neu arbenigol fel rhan o'r ddarpariaeth gofal dydd. Gall hefyd weithredu ar ran y Dirprwy Reolwr os na fydd yn bresennol.

1.2.4 Dirprwy Reolwr Meithrinfa/Dirprwy Reolwr Sesiynol

Dirprwy Reolwr Meithrinfa/Dirprwy Reolwr Sesiynol yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am ddirprwyo ar ran y rheolwr wrth roi cyfarwyddyd a threfnu'r broses o redeg y ddarpariaeth gofal dydd yn effeithiol. Gall y dirprwy reolwr weithredu fel yr 'unigolyn cyfrifol'.

1.2.5 Rheolwr Meithrinfa/Rheolwr Sesiynol

Rheolwr Meithrinfa/Rheolwr Sesiynol yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am bennu'r cyfeiriad gweithredol a threfnu'r broses o redeg y ddarpariaeth gofal dydd yn effeithiol. Gall y rheolwr weithredu fel yr 'unigolyn cyfrifol' a/neu'r 'unigolyn cofrestredig'.

1.3 Statws y Rhestr Cymwysterau

1.3.1 A yw'r Rhestr Cymwysterau yn orfodol?

Bydd angen i ymarferwyr feddu ar un o'r cymwysterau a enwir ar y Rhestr cymwysterau er mwyn gallu ymarfer o fewn y meysydd gwasanaeth sy'n rhan o ôl troed y Cyngor Gofal h.y. y rheini a nodir ar y Rhestr Cymwysterau.

1.4 Cymwysterau sy'n ofynnol i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn disgrifio'r gofynion penodol ar gyfer lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio; eu nod yw sicrhau gwasanaethau diogel o ansawdd uchel. Fe'u cyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ac mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn eu hystyried wrth gynnal arolygiadau.

Gall fod gofynion cymwysterau ychwanegol nad ydynt yn ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ond sy'n ofynnol o dan bolisiau Llywodraeth Cymru.

1.5 Cymwysterau sy'n ofynnol i fodloni Polisi Llywodraeth Cymru

Mae cymwysterau ar gyfer Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen ar lefel uwch na'r rheini sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol gan Bolisi Llywodraeth Cymru.

1.6 Cymwysterau blaenorol a dderbynnir i ymarfer

Sef cymwysterau nad ydynt ar gael mwyach ond sy'n parhau i fodloni gofynion cymwysterau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a/neu bolisiau Llywodraeth Cymru.

Dylid ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd er mwyn parhau'n ymwybodol o'r ymarfer gorau diweddaraf.

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair

1. Cyflwyniad a chanllawiau

2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche

3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant

4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol

5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg

6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen

1.7 Meini prawf i gymwysterau ymddangos ar y Rhestr Cymwysterau

Er mwyn i gymhwyster gael ei dderbyn a'i roi ar y Rhestr, mae wedi bodloni cyfres o feini prawf y cyfeirir atynt fel yr 'egwyddorion dylunio'. Diweddarwyd yr egwyddorion dylunio y seiliwyd y Rhestr arnynt yn wreiddiol, a datblygwyd egwyddorion dylunio newydd ar gyfer addysg lawn amser ar gyfer cymwysterau ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant - y diploma estynedig. Nodir manylion y ddwy gyfres o egwyddorion dylunio yn y paragraffau canlynol:

1.7.1 Egwyddorion dylunio ar gyfer pob proses datblygu cymwysterau⁴

- Yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n briodol i anghenion y sector;
- Rhaid bod modd eu dilysu'n allanol;
- Dylai cymwysterau sy'n cael eu datblygu fod yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy a chadarn o anghenion cyflogwyr ac felly yn 'Addas at y Diben'. Dylent allu ymateb yn hyblyg i anghenion y sector a'i ddysgwyr gan gynnwys modelau cyflenwi, iaith a hygyrchedd;
- Dylid gallu eu cysoni'n hawdd i fframweithiau cymwysterau ledled y DU a'r UE (byddai defnyddio'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau yn un ffordd o gyflawni hyn);
- Dylid cael strwythur sy'n hwyluso ac yn hyrwyddo'r angen am lwybrau dilyniant llorweddol a fertigol sydd hefyd yn rhoi'r cyfle i astudio ehangder a/neu ddyfnder gwybodaeth a sgil yn ôl yr angen;
- Dylid cydnabod fod lle i wahanol fathau o ddysgu, gwybodaeth,

sgiliau a chymhwysedd. Dylid eu defnyddio i hwyluso dilyniant ac ehangu gwybodaeth, tra'n parhau at ymarfer da o brofi cymhwysedd yn y gweithle.

1.7.2 Mae'r Diploma Estynedig Lefel 3 Newydd mewn Gofal Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD): egwyddorion dylunio ar gyfer addysg lawn amser fel a ganlyn:

- Rhaid iddynt gynnwys y cymhwyster cymhwysedd galwedigaethol Diploma mewn CCLD (a ddyfynnir yn y Datganiad Polisi Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd newydd gan Lywodraeth Cymru);
- Rhaid i'r teitl adlewyrchu'r cymwysterau cymhwysedd galwedigaethol yn eglur;
- Rhaid iddynt fod yn addas at y diben yng Nghymru a bodloni gofynion Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen;
- Rhaid iddynt ddarparu opsiwn dilyniant i AU gyda 360-420 o bwyntiau UCAS;
- Darparu pwynt ymadael gydag achrediad uned a/neu ddiplomâu (dim arall, felly ni chaiff dyfarniadau a thystysgrifau eu datblygu fel pwyntiau gadael);
- Rhaid iddynt gynnig opsiwn llawn amser er mwyn rhoi amser i ddysgwyr ifancach ddysgu, datblygu, aeddfedu a phrofi eu cymhwysedd;
- Dylent gynnwys unedau cyffredinol y gall unrhyw gorff dyfarnu eu cynnig;
- Dylent ddarparu ychwanegedd i gyflogwyr o ran cyflogadwyedd a chymysgedd sgiliau ar gyfer eu timau o staff.

⁴ Proffesiynoleiddio: cyfraniad datblygu'r gweithlu Strategaeth Cymwysterau a Dysgu'r Sector 2012-2017

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair

1. Cyflwyniad a chanllawiau

2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche

3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant

4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol

5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg

6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen

1.8 Cymwysterau ar y Rhestr Cymwysterau nad ydynt yn bodloni'r egwyddorion dylunio

1.8.1 Edexcel BTEC Diploma Cyntaf CCLD (Lefel 2) / Diploma Lefel 2 CACHE mewn Gofal Plant ac Addysg (NQF)

Dyfynnwyd y cymwysterau hyn yn flaenorol ar y *Rhestr o Gymwysterau a Dderbynnir ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru*, fersiwn 2. Fodd bynnag, nid ydynt yn bodloni'r egwyddorion dylunio ar gyfer darpariaeth addysg lawn amser o ran cymwysterau ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Bydd y cymwysterau hyn yn parhau ar y Rhestr gyfredol fel rhan o'r broses o drosglwyddo i'r Diploma Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (QCF) ond dim ond os dechreuwyd astudio ar eu cyfer cyn 2014 y cânt eu derbyn.

1.8.2 Tystysgrif Genedlaethol Lefel 3 Edexcel BTEC / Diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant – CCLD

Dyfynnwyd y cymwysterau hyn yn flaenorol ar y *Rhestr o Gymwysterau a Dderbynnir ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru*, fersiwn 2. Fodd bynnag, nid ydynt yn bodloni'r egwyddorion dylunio ar gyfer darpariaeth addysg lawn amser o ran cymwysterau ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant a chânt eu disodli gan ddiploma estynedig mewn gofal, dysgu a datblygiad plant. Dim ond os dechreuwyd astudio ar eu cyfer cyn 2014 y caiff y cymwysterau hyn eu derbyn.

1.8.3 BA y Blynyddoedd Cynnar a B.Ed / BA Addysg Gynradd

Dyfynnwyd y cymwysterau hyn yn flaenorol ar y *Rhestr o Gymwysterau a Dderbynnir ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru*, fersiwn 2 ar gyfer y rheini sy'n gweithio o fewn rolau swydd penodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn bodloni'r egwyddorion dylunio ac ni chânt eu derbyn mwyach **oni** ddechreuwyd astudio ar eu cyfer cyn 2010 **neu** y'u delir gan rai sy'n gweithio o fewn gwasanaethau'r Cyfnod Sylfaen⁵.

Cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yw'r Cyfnod Sylfaen. Felly mae cymhwyster addysgu cynradd yn dderbyniol yn yr achos hwn.

1.9 Cyfwerthedd a dysgu blaenorol

Gall fod rhai amgylchiadau lle yr ystyrir bod cymhwyster yn cyfateb i un o'r cymwysterau hynny a ddynodir ar y rhestr. O dan amgylchiadau o'r fath, dylid trafod hyn gydag AGGCC. Gall AGGCC gysylltu â'r Cyngor Gofal i gael cyngor os bydd ei angen hynny.

Gall sefydliadau dyfarnu hefyd ystyried cymwysterau neu ddysgu presennol dysgwyr a phenderfynu p'un a ellir cydnabod elfennau ohonynt tuag at gymhwyster gwahanol. Cysylltwch â'r sefydliad dyfarnu ar gyfer y cymhwyster rydych am ei gwblhau er mwyn cael rhagor o fanylion.

⁵ Y Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair

1. Cyflwyniad a chanllawiau

2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche

3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant

4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol

5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg

6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen

1.10 Cymwysterau a gaiff eu hennill y tu allan i Gymru

Dim ond y cymwysterau blynyddoedd cynnar hynny a gynigir yng Nghymru a ddynodir ar y Rhestr Cymwysterau. Mae'r Cyngor Gofal wedi cytuno gyda phartneriaid eraill yn y DU pa gymwysterau'r blynyddoedd cynnar a gaiff eu derbyn yng Nghymru o wledydd eraill y DU.

Lle y bydd ymarferydd yn meddu ar gymhwyster a enillwyd y tu allan i Gymru ond o fewn gwledydd eraill y DU, dylid cyfeirio at gyhoeddiad y Cyngor Gofal o'r enw [Cymwysterau'r FfCCh ar draws ffiniau](#) sy'n amlinellu'r cymwysterau blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n dderbyniol er mwyn i ymarferwyr weithio yng Nghymru.

1.11 Y broses sefydlu ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Mae [Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru](#) yn darparu strwythur ar gyfer sefydlu ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan amlinellu beth y mae angen i ymarferydd y blynyddoedd cynnar allu ei wybod a'i wneud yn ystod ei chwe mis cyntaf mewn swydd. Mae [Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar i Gymru](#) yn helpu i ddatblygu ymarferwyr medrus, cymwys a diogel ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant. At hynny, mae gofyniad o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio⁶ y dylai pob ymarferydd gael hyfforddiant sefydlu sy'n cynnwys iechyd a diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau diogelu plant yn ystod ei wythnos gyntaf mewn swydd.

1.12 Datblygiad proffesiynol parhaus

Gellid disgrifio datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) fel dysgu a datblygu parhaus i wella ac ymestyn ymarfer proffesiynol drwy gydol gyrfa unigolyn.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn broses barhaus, gynlluniedig o ddatblygu gwybodaeth a sgiliau proffesiynol drwy gydol bywyd gwaith. Mae'n ymagwedd gyfannol at ddysgu sy'n cydnabod profiadau bob dydd fel cyfleoedd dysgu. Yn ei hanfod mae a wnelo DPP â sicrhau proffesiynoldeb o ran popeth y mae ymarferwyr yn ei wneud, mae'n ymrwymiad personol i ddiweddarau gwybodaeth a sgiliau yn barhaus.

Datblygwyd pecyn cymorth i helpu rheolwyr ac ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant i gynllunio eu datblygiad proffesiynol parhaus, sef [Pecyn Cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus Cyngor Gofal Cymru ar gyfer Rheolwyr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant](#)⁷. Mae'n amlinellu'r amrywiaeth o ffyrdd y gellir ategu datblygiad proffesiynol parhaus ac mae ar gael o wefan y Cyngor Gofal.

1.13 Awgrymiadau am gymwysterau seiliedig ar waith fel dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus

Nod y golofn hon o'r Rhestr Cymwysterau yw nodi ac awgrymu cymwysterau 'seiliedig ar waith' a/neu unedau o fewn y Fframwaith Credydau a Chymwysterau a all helpu ymarferwyr i ddatblygu eu gyrfa a datblygu yn eu rôl gwaith fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r cymwysterau a'r unedau hyn yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

⁶ Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio - Llywodraeth Cymru Mawrth 2012

⁷ Pecyn Cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus Cyngor Gofal Cymru ar gyfer Rheolwyr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Cyngor Gofal Cymru 2012

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair

1. Cyflwyniad a chanllawiau

2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche

3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant

4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol

5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg

6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen

Mae'r diplomâu lefel 5 mewn gofal, dysgu a datblygiad plant yn bwysig iawn ac fe'u dyluniwyd i ategu Datblygiad Proffesiynol Parhaus ymarferwyr lefel 3 a fyddai'n hoffi datblygu a gwella eu hymarfer:

- Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer Uwch)

a/neu'r ymarferwyr hynny sydd naill ai'n meddu ar rôl reoli eisoes neu sy'n eisiau symud i rôl o'r fath:

- Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Rheoli)

Gellir dilyn unedau annibynnol penodol o'r amrywiaeth o gymwysterau'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau sydd ar gael er mwyn darparu dysgu parhaus mewn meysydd penodol. Datblygwyd cyfres o daflenni mapio sy'n amlinellu'r unedau mwyaf addas ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio o fewn gwahanol feysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Maent ar gael ar wefan y Cyngor Gofal.

1.14 Cymwysterau academiaidd a dysgu ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus

Mae'r Cyngor Gofal yn cydnabod gwerth cymwysterau academiaidd wrth ddatblygu a gwella gwybodaeth ac ymarfer ymarferydd. Mae'r Cyngor Gofal yn awgrymu y gellir cysylltu â sefydliadau addysg uwch a darparwyr addysg bellach i gael rhagor o wybodaeth a chyngor.

1.15 Asesu cymwysterau

Mae gallu cyflawni cymwysterau yn dibynnu ar aseswyr sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r gallu i helpu pobl drwy eu cymwysterau. Mae buddsoddi i ddatblygu'r gweithlu drwy gyflawni cymwysterau yn helpu i greu diwylliant o ddysgu a meithrin y cymhwysedd sydd ei angen ar gyfer aseswyr y dyfodol a chryfhau'r broses o broffesiynoleiddio'r gwasanaeth a'r sefydliad cyfan.

1.16 Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae Cyngor Gofal Cymru yn annog ymdrechion i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sensitifrwydd diwylliannol. Ni ddylid tanbrisiu pwysigrwydd deall datblygiad iaith a datblygiad dwyieithog o fewn cyd-destun penodol Cymru. Mae rhai o'r cymwysterau a restrir ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, dylid gofyn am gyngor gan sefydliadau dyfarnu lle bo angen cymwysterau o'r fath.

Mae cynllunio a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg. Gellir datblygu sgiliau Cymraeg drwy ymgymryd â dysgu a gyflwynir yn Gymraeg, yn ogystal â thrwy ganolbwyntio'n uniongyrchol ar wella sgiliau Cymraeg.

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair

1. Cyflwyniad a chanllawiau

2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche

3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant

4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol

5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg

6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen

2. Cymwysterau sy'n ofynnol i'r rheini sy'n gweithio o fewn cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche gyda phlant o dan wyth oed

Cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche i blant 0 i 7 oed – Ymarferydd Meithrinfa Cynorthwyol

Y gyfran ofynnol o'r gweithlu yn ôl y Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Ar gyfer gofal dydd llawn, dylai o leiaf 80% o'r staff nad oes ganddynt rôl oruchwylio feddu ar gymhwyster ar lefel 2⁸ o leiaf

Cymwysterau presennol sy'n ofynnol ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Cymwysterau blaenorol a dderbynnir mewn perthynas â rheoleiddio	Awgrymiadau am gymwysterau seiliedig ar waith fel dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus
Diploma Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) y FfCCh Diploma Cyntaf CCLD (Lefel 2) BTEC EDEXCEL⁹ Diploma Lefel 2 CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant (NQF)¹⁰	NVQ Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD) NVQ Lefel 2 mewn Gofal ac Addysg Plant NVQ Lefel 2 mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar Tystysgrif CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant (CCE) Diploma Cyntaf mewn Blynyddoedd Cynnar / Nyrsio Meithrin	Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) y FfCCh

Dylai ymarferwyr sy'n newydd i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant neu sy'n newydd i sefydliad gwblhau Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru.

⁸ Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio – Mawrth 2012

⁹ Gweler y canllawiau

¹⁰ Gweler y canllawiau

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair	1. Cyflwyniad a chanllawiau	2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche	3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant	4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol	5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg	6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen
---------	-----------------------------	---	----------------------------------	-------------------------------------	-------------------------------	--------------------------------

Cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche i blant o dan wyth oed – Ymarferydd Meithrinfa

Y gyfran ofynnol o'r gweithlu yn ôl y Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Dylai o leiaf 50% o'r rhain feddu ar gymhwyster ar lefel 3¹¹

Cymwysterau presennol sy'n ofynnol ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Cymwysterau blaenorol a dderbynnir mewn perthynas â rheoleiddio	Awgrymiadau am gymwysterau seiliedig ar waith fel dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus
<p>Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) y FfCCh</p> <p>Diploma Estynedig CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant</p> <p>Tystysgrif Lefel 4 y Brifysgol Agored mewn Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar</p> <p>Tystysgrif/Diploma Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3 – CCLD¹² BTEC EDEXCEL</p>	<p>Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant</p> <p>NVQ Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD)</p> <p>NVQ Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant</p> <p>NVQ Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar</p> <p>Diploma CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant</p> <p>Diploma Lefel 3 mewn Nyrsio Meithrin</p> <p>Dyfarniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i weithwyr chwarae (dyfarniadau trosiannol)</p> <p>Tystysgrif Lefel 3 mewn Gweithio gyda Phlant</p> <p>Diploma CACHE mewn Nyrsio Meithrin (DNN)</p> <p>Diploma mewn Gofal ac Addysg Plant (DCE)</p> <p>Tystysgrif Genedlaethol BTEC mewn Gwasanaethau Gofal (Nyrsio Meithrin)</p> <p>Diploma Cenedlaethol mewn Gwasanaethau Gofal (Nyrsio Meithrin)</p> <p>Tystysgrif Genedlaethol mewn Astudiaethau Plentynod (Nyrsio Meithrin)</p> <p>Diploma Cenedlaethol mewn Astudiaethau Plentynod (Nyrsio Meithrin)</p> <p>Tystysgrif Genedlaethol mewn Blynyddoedd Cynnar</p> <p>Diploma Cenedlaethol mewn Blynyddoedd Cynnar</p>	<p>Unedau pellach o Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) y FfCCh</p> <p>Unedau o Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer Uwch) Cymru a Gogledd Iwerddon y FfCCh</p>

Dylai ymarferwyr sy'n newydd i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant neu sy'n newydd i sefydliad gwblhau Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru.

¹¹ Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio – Mawrth 2012

¹² Gweler y canllawiau

Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

Rhagair	1. Cyflwyniad a chanllawiau	2. Cymwysterau: Gofal Dydd Llawn a Crèche	3. Cymwysterau: Gwarchodwr Plant	4. Cymwysterau: Gofal Dydd Sesiynol	5. Cymwysterau: Dechrau'n Deg	6. Cymwysterau: Cyfnod Sylfaen
---------	-----------------------------	---	----------------------------------	-------------------------------------	-------------------------------	--------------------------------

Cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche i blant o dan wyth oed – Uwch Ymarferydd Meithrinfa/Dirprwy Reolwr Meithrinfa

Y gyfran ofynnol o'r gweithlu yn ôl y Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Dylai o leiaf 50% o'r rhain feddu ar gymhwyster ar lefel 3

Cymwysterau presennol sy'n ofynnol ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Cymwysterau blaenorol a dderbynnir mewn perthynas â rheoleiddio	Awgrymiadau am gymwysterau seiliedig ar waith fel dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus
